OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3240

# Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004

**Cyfnewid tystiolaeth**

**13.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fydd apêl i fod i gael ei phenderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig neu ar ôl cynnal gwrandawiad ac, yn ychwanegol, pan fydd apêl i fod i gael ei phenderfynu—

(a) drwy sylwadau ysgrifenedig, mae rheoliadau 14 a 19 i 22 yn gymwys;

(b) ar ôl cynnal gwrandawiad, mae rheoliadau 15 i 22 yn gymwys.

(2) Os bydd unrhyw un o'r partïon yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau yn ychwanegol at—

(a) yr hysbysiad o apêl ac unrhyw ddogfennau sy'n ategol iddo; neu

(b) yr holiadur ac unrhyw ddogfennau a gyflwynir gydag ef,

rhaid i'r parti hwnnw anfon tri chopi o'r sylwadau ychwanegol hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y byddant yn dod i law o fewn 6 wythnos i'r dyddiad cychwyn a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt ddod i law, anfon copi o unrhyw sylwadau ychwanegol at bob un o'r partïon eraill.

(3) Os bydd unrhyw barti yn dymuno gwneud sylwadau ar unrhyw sylwadau gan unrhyw barti arall, neu ar unrhyw sylwadau a wnaed yn unol â rheoliad 11(2)(d), rhaid i'r parti hwnnw anfon tri chopi o'r rhain i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y byddant yn dod i law o fewn 9 wythnos i'r dyddiad cychwyn.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol anwybyddu unrhyw wybodaeth ychwanegol gan unrhyw un o'r partïon nad yw wedi'i chael o fewn 9 wythnos i'r dyddiad cychwyn oni wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol ofyn am yr wybodaeth ychwanegol honno a bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael yr wybodaeth honno y gofynnodd amdani o fewn y cyfnod a bennodd yn ysgrifenedig pan wnaeth y cais.